**PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Rhuthun ar 29ain Medi 2004 am 10.00 a.m.

**YN BRESENNOL**

Cynghorwyr S. Thomas (Cadeirydd), R. Bartley, B. Barton, B. Blakeley (sylwedydd), J. Butterfield, D. Cooper, J.M. Davies, M.Ll. Davies, S.A. Davies, H.H. Evans, I.M. German, M.A. German, D. Hannam, K.N. Hawkins, T.K. Hodgson, N.J. Hughes, T.R. Hughes, N. Hugh-Jones, D. Jones, H. Jones, P.W. Owen, N.P. Roberts, D.A.J. Thomas, J. Thompson-Hill, C.H. Williams, E.W. Williams, R.Ll. Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Swyddog Cynllunio, (D. Beggan), Uwch Swyddog Cefnogi (G. Butler) a S. Williams (cyfieithydd).

**YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr G.E. Evans, S. Frobisher, J. Chamberlain-Jones, E.R. Jones, M.M. Jones, M. Webster, R.Ll. Williams.

**229 MATERION BRYS**

Cododd yr Aelodau y materion canlynol:

- Oedi wrth gyflenwi adroddiad Pwyllgor Cymru. Swyddogion i chwilio i mewn i'r mater.
- Rhestr Aelodaeth ar yr Agenda yn anghywir.
    - Swyddogion i sicrhau bod hyn yn cael ei gywiro.
    - Newidiadau i enwebiadau grwp a'r angen i hysbysu grwpiau eraill o newidiadau sydd i'w trafod yn y Pwyllgor Llywodraeth Gorfforaethol.

- Statws y Cynllun Datblygu Unedol.
    - Swyddogion i gynhyrchu adroddiad ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio nesaf yn egluro statws y CDU fel y mae yn erbyn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd.

**SIARADWYR CYHOEDDUS YN Y PWYLLGOR**

Cytunodd yr Aelodau i gymryd yr holl geisiadau am ganiatâd i ddatblygu ble oedd aelodau o'r cyhoedd i fod i siarad, ar ddechrau'r eitem agenda.

**230 CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU**

Cyflwynwyd yr Adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd ac a oedd ag angen eu penderfynu gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD***:-

(a) cadarnhau argymhelliad y Swyddogion, fel y'i cynhwyswyd yn yr adroddiad a gyflwynir yn awr, a rhoi caniatâd cynllunio neu'i wrthod yn ôl fel y digwydd fel y bo'n briodol dan y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal, 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), 1990 i'r datblygiad a arfaethir gan y cynlluniau canlynol yn amodol ar yr amodau a restrir yn yr atodlen a gyflwynir yn awr:-

(i) Caniatâd

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 01/2004/1041/PF | Codi uned swyddfa 2 lawr (dosbarth B1) a newid y fynedfa bresennol i gerbydau<br>Rhan 3 Stad Ddiwydiannol Colomendy, Ffordd y Rhyl, Cyngor Sir Ddinbych<br>Yn amodol ar Amod Newydd 8 ac Amodau Diwygiedig 3 4 5 a 7<br>8. Nid yw datblygu i ddechrau hyd nes y bydd gwaith draenio wedi'i wneud yn unol â manylion sydd i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.<br>Amodau Diwygiedig<br>3. "………..i'w ddarparu'n unol â'r cynlluniau a gymeradwywyd a'i gadw wedi hynny ar gyfer y dywededig ddibenion".<br>4. Ailrifo "(a) yn (d)" nid "(b) yn (e)".<br>5. "……….ar gyfer y paneli cladin allanol a'r rendr, mewn cysylltiad â pha rai y dylai paneli enghreifftiol o'r defnyddiau arfaethedig gael eu codi ar y safle i'w harchwilio" "samplau".<br>7. Cyn dechrau defnyddio'r swyddfeydd a ganiateir drwy hyn, mae lle parcio beiciau i'w ddarparu'n unol â manylion sydd i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.<br>Rheswm: Annog teithiau ar wahân i rai â char preifat. |
| 12/2004/0747/PF | Ar ôl ystyried 2 lythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau gan: Cyngor Cymuned Derwen a Dŵr Cymru.<br>Codi annedd breswyl deulawr a llunio mynedfa newydd i gerbydau.<br>Tir Gyferbyn â'r Gyfnewidfa Ffôn Clawddnewydd, Rhuthun.<br>Yn amodol ar Amodau Diwygiedig<br>4. Dileu "Asiantaeth yr Amgylchedd neu" ac "Asiantaeth" a rhoi "Awdurdod Cynllunio Lleol" yn eu lle.<br>5. "mewnosodwyd" nid "cyflwynwyd".<br>7. "wedi i rywun ddod i fyw yn yr annedd" – dileu gweddill y darn o fewn cromfachau. |
| 18/2004/0685/PF | Lleoli eisteddle gwylwyr a dau dwll ymochel mewn cysylltiad â maes pêl-droed (cais ôl-weithredol).<br>Cae Nant, Llandyrnog, Dinbych<br>Yn amodol ar Amod Newydd<br>1. Mae'r eisteddle gwylwyr i'w symud i'r lleoliad a gymeradwywyd o fewn 3 mis i ddyddiad y penderfyniad hwn.<br>Rheswm: Er lles amwynder preswyl. |

| | |
|---|---|
| 21/2004/0472/PF | Ar ôl ystyried cywiriad i'r adroddiad (para 6(d)) ac 1 llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth: CADW.<br>Siaradwr Cyhoeddus Dros: D Clough<br>Datblygu tir i greu llyn gweithgaredd hamdden, llwybrau a gwaith cysylltiedig arall.<br>Canolfan Addysg Awyr Agored Colomendy Ffordd Rhuthun, Loggerheads, Llanferres, Yr Wyddgrug. |
| 21/2004/073/PF | Ar ôl ystyried 5 llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau gan: Cyngor Cymuned Llanferres; CCGC; Cymdeithas y Cerddwyr; Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru; CBY/AHNE.<br>Darparu cyfleusterau hamdden, gwaith cysylltiedig a gwyro llwybrau cyhoeddus o fewn y coetir/tiroedd presennol.<br>Canolfan Addysg Awyr Agored Colomendy, Ffordd Rhuthun, Logggerheads, Llanferres, Yr Wyddgrug.<br>Yn amodol ar Amodau Diwygiedig/ Ychwanegol<br>9. "…..manylion y gwyriad a gwaith peirianyddol ac unrhyw ffensys sydd eu hangen ar gyfer y 2 lwybr cyhoeddus ayb"<br>Rhoi "cychwynnwyd" yn lle "dechreuwyd defnyddio".<br>Nid yw dim gwaith datblygu o unrhyw fath i ddechrau hyd nes y byddir wedi sicrhau presenoldeb archeolegydd dan gontract ar y safle yn unol â'r cyfarwyddiadau a amlinellwyd mewn brîff dylunio curadurol a'i gymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Mae mynediad i'w roi, ar unrhyw adeg resymol, i'r archeolegydd hwn fel bod modd sylwi ar a chofnodi unrhyw weddillion archeolegol a ddadorchuddir yn ystod cyfnodau cynnar y datblygu. Rhaid gadael adroddiad am unrhyw gofnodion archeolegol a wneir o fewn Cofnod Safleoedd a Henebion y Sir, Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys, 7a Church Street, Y Trallwng, Powys, SY21 7DL (01938-553670) o fewn mis i gwblhau'r gwaith hwn gyda chrynodeb o'r cofnodion yn cael ei anfon at yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar yr un pryd. Dymunai'r Cynghorwyr E. Williams a C Williams iddo gael ei nodi eu bod wedi atal eu pleidlais.<br>Mewn ymateb i ymholiad ar hawliau pleidleisio, dymunai'r Aelodau iddo gael ei nodi na wnaeth y rheini oedd hefyd yn Aelodau o Gyd-Bwyllgor Ymgynghorol yr AHNE (CBY) drafod na phleidleisio ar y cynnig hwn pan ddaethpwyd ag ef gerbron y CBY. |
| 30/2004/0970/PF | Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau gan: Cyngor Cymuned Trefnant.<br>Codi annedd ar wahân gyda garej yn sownd a llunio mynedfa newydd i gerbydau.<br>Tir yn (rhan o ardd) Davance Ffordd Uchaf Dinbych, Llanelwy.<br>Yn amodol ar Amod Ychwanegol 10 |

10. Mae'r fynedfa bresennol i'w chau cyn i neb fyw yn yr annedd a ganiateir drwy hyn yn unol â manylion sydd i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.
Rheswm: Er mwyn diogelwch y briffordd.
Nodiadau i'r Ymgeisydd
1. Tynnir eich sylw at y Nodiadau Priffyrdd Atodol Rhif 1, 2, 4, 5 a 10.
2. Tynnir eich sylw at y ffurflen Rhan N amgaeëdig (Deddf Gwaith Ffyrdd a Strydoedd Newydd 1991).
3. Tynnir eich sylw at y nodiadau amgaeëdig yn ymwneud â cheisiadau am ganiatâd i lunio croesfan i gerbydau dros lwybr troed / ymyl dan Adran 184 o Ddeddf Priffyrdd 1980.

43/2004/0988/PF

Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau gan: Cyngor Tref Prestatyn.
Codi estyniad deulawr to serth wrth ochr ac ystafell wydr yng nghefn tŷ annedd (cynllun diwygiedig).
143 Llandaff Drive, Prestatyn.

43/2004/1054/PF

Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau gan: Cyngor Tref Prestatyn.
Codi ystafell wydr a ffenestr dormer yng nghefn y tŷ annedd.
4 Talton Crescent, Prestatyn.
(Nid oedd y Cynghorwyr I. German ac M. German yn bresennol pan ystyriwyd yr eitem hon).

45/2004/0694/PF

Cyhoeddodd y Cynghorydd D.A.J. Thomas ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra oedd yn cael ei ystyried.
Siaradwr Cyhoeddus yn Erbyn: Mrs J. Twist
Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau gan: Cyngor Tref Y Rhyl.
Cyfnewid y gatiau a'r rhwystr presennol am nodwedd mynedfa porth dur 5m o uchder (drwyddo draw).
Mynedfa i Warchodfa Natur Llyn Brickfield, Ffordd Derwen, Y Rhyl.
Yn amodol ar Nodyn Newydd i'r Ymgeisydd
1. Tynnir eich sylw at y Nodiadau Priffyrdd Atodol amgaeëdig Rhif [1, 2, 4, 5 a 10].
2. Tynnir eich sylw at y ffurflen Rhan N amgaeëdig (Deddf Gwaith Ffyrdd a Strydoedd Newydd 1991).

45/2004/1060/PF

Cyhoeddodd y Cynghorydd B. Blakeley ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra oedd yn cael ei ystyried.
Codi ffens ar du blaen yr eiddo.
12 Cambrian Walk, Y Rhyl.

46/2004/0445/PF

Cyhoeddodd y Cynghorydd S Thomas ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra oedd yn cael ei ystyried.
Yn absenoldeb yr Is-Gadeirydd cymerodd y Cynghorydd D.A.J. Thomas y Gadair am yr eitem hon.

| | |
|---|---|
| | Newid defnydd o safle carafanau teithiol a thir amaethyddol yn safle carafanau statig gyda bloc amwynder cysylltiedig a gosod tanc carthion newydd.<br>Spring Gardens, The Roe, Llanelwy.<br>Yn amodol ar Amodau Diwygiedig<br>3. Ychwanegu ar ôl "adeiladu", "cau'r llain ganol".<br>4. "unedau carafan".<br>5. "1af Mawrth" yn lle "1af Mehefin".<br>Nodyn i'r Ymgeisydd Nodiadau Priffyrdd fel yn ymateb priffyrdd |
| 47/2004/0693/PC | Parhau i ddefnyddio tir ar gyfer ailgylchu/datgymalu carafanau, storio carafanau teithiol, storio, torri a dosbarthu coed ac fel depo ar gyfer storio cerbydau nôl cerbydau (Cais ôl-weithredol).<br>Pen y Palmant, Waen, Llanelwy.<br>Yn amodol ar Amodau Diwygiedig/ Ychwanegol<br>1. "….y man a amlinellwyd yn wyrdd ar y cynllun safle ayb".<br>3. "dosbarthiad".<br>7. O fewn 3 mis i ddyddiad y penderfyniad hwn mae cynllun tirlunio meddal manwl ar gyfer y safle i'w gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn cynnwys manylion:<br>a) Yr holl goed, gwrychoedd a llystyfiant arall sy'n bodoli ar y safle a manylion unrhyw rai sydd i'w cadw.<br>b) Coed, gwrychoedd, llwyni neu lystyfiant newydd arfaethedig, yn cynnwys cadarnhad o'r rhywogaethau, eu nifer a'u lleoliad.<br>c) Lleoliadau, dyluniad, defnyddiau a math o driniaeth ffin arfaethedig.<br>8. Mae'r holl blannu, hadu, ffensio, walio neu driniaeth arall sy'n dod o fewn y manylion tirlunio a gymeradwywyd i'w wneud erbyn 30ain Ebrill 2005 ac mae unrhyw goed neu blanhigion sydd, o fewn cyfnod o 5 mlynedd i'r datblygiad, yn marw, yn cael eu gwaredu neu'n cael eu difrodi neu'u heintio'n ddifrifol i'w cyfnewid o fewn y tymor plannu nesaf am rai eraill o faint a rhywogaeth debyg.<br>Rhesymau: Er lles amwynderau gweledol yr ardal. |
| 43/2004/0924/PF | Codi estyniad deulawr to serth wrth ochr y tŷ annedd.<br>11 Bryntirion Drive, Prestatyn. |
| 45/2004/0910/PO | Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau gan: Dŵr Cymru.<br>Datblygu 0.04 hectar o dir drwy ddymchwel garejis cloi a chodi annedd (cais amlinellol).<br>Tir rhwng 3 ac 11 West Kinmel Street, Y Rhyl.<br>Yn amodol ar:<br>Penderfynwyd **RHOI** caniatâd cynllunio ond ar yr amod bod yr ymgeiswyr yn gyntaf yn llunio ymrwymiad Adran 106 i ofyn am gyfran o dai fforddiadwy ar y safle (30%).<br>Amodau Ychwanegol<br>7. Cyn i neb fyw yn yr anheddau a ganiateir drwy hyn mae manylion mesurau lliniaru llifogydd i'w cyflwyno i'r |

| | |
|---|---|
| | Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo a'u gweithredu'n llawn cyn i neb fyw yno.<br>Rheswm: Lleihau perygl llifogydd.<br>8. Ni cheir dechrau defnyddio dim o'r adeilad(au) hyd nes bydd y gwaith draenio wedi'i gwblhau yn unol â'r cynlluniau a gymeradwyir drwy hyn.<br>9. Mae'r anheddau a ganiateir drwy hyn i fod yn ddeulawr gyda lle byw ar y llawr isaf a'r llawr cyntaf yn unig.<br>Rheswm: Er lles amwynder preswyl a gweledol. |
| 45/2004/0914/TP | Torri 1 goeden fasarn a rifwyd yn T10 ar gynllun yn atodedig at Orchymyn Cadwraeth Coeden Rhif 1 1987 Bwrdeistref Rhuddlan (Garage Park, Y Rhyl).<br>11 Grange Court, Y Rhyl.<br>Yn amodol ar:<br>1. "manylion plannu coeden yn ei lle (i fod yn goeden dal o leiaf). |

**GWRTHOD**

| | |
|---|---|
| 13/2004/0906/PF | Ar ôl ystyried 2 lythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau gan:<br>• W Fisher Holt & D Fisher Holt, Llanerch Pwllglas.<br>• Pennaeth Cludiant<br>Siaradwr yn erbyn: Mrs Fisher-Holt<br>Codi annedd a garej/gweithdy ar wahân i gymryd lle'r garafan a'r cynwysyddion presennol.<br>Tir yn Felin Einion, Pwllglas, Rhuthun. |

**Er gwaethaf Argymhelliad y Swyddogion bod y ceisiadau canlynol i'w GWRTHOD am y rheswm a roddir**

| | |
|---|---|
| 03/2004/1051/PF | Cyhoeddodd y Cynghorydd S. Davies ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra oedd yn cael ei ystyried.<br>Ar ôl ystyried 2 lythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau gan: Pennaeth Cludiant a Seilwaith; AH & C Pritchard, Beechlands Fron Bache.<br>Codi 4 o dai yn lle 4 o fyngalos a gymeradwywyd yn flaenorol fel rhan o ganiatâd cynllunio ar gyfer 23 o anheddau, Rhif Côd 02/2003/1340/PF.<br>Tir i'r De o Greenacres, Fron Bache, Llangollen.<br>Yn amodol ar:<br>Gwnaed y penderfyniad, a oedd yn GROES i Argymhelliad y Swyddogion, am y rheswm canlynol:<br>"Barn yr Awdurdod Cynllunio Lleol yw y byddai lleoliad tai sylweddol mor agos i ffin Fron Bache y safle yn cael effaith gorfforol gorlethol, gan leihau amwynderau preswylwyr yr anheddau presennol i'r gorllewin yn annerbyniol, ac yn effeithio'n andwyol ar gymeriad y lôn atyniadol hon".<br>Cytunodd y Pwyllgor Cynllunio mai'r Aelodau Lleol fyddai'n gallu cynrychioli'r Pwyllgor Cynllunio orau yn |

yr apêl a gyflwynwyd yn dilyn gwrthod y cynnig hwn o'r blaen.

43/2004/0768/PF

Ar ôl ystyried 2 lythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau gan: Uwch Swyddog Cynnal a Chadw Tiroedd a'r Ymgeisydd.
Dymchwel yr adeiladau presennol a chodi 2 fflat 1-ystafell wely a 10 o dai tref 2-ystafell wely, ffordd fynediad newydd a pharcio cysylltiedig.
Canolfan Gardd Galltmelyd, 113 Ffordd Talargoch, Prestatyn.
Gwnaed y penderfyniad hwn, a oedd yn **GROES** i Argymhelliad y Swyddogion, am y rheswm canlynol:
**GWRTHODWYD**
1. Byddai'r cynnig yn arwain at orddatblygu'r safle gydag arwahaniad annigonol rhwng yr anheddau arfaethedig a'r anheddau presennol, gerddi preifat annigonol, a ffurf gyfyng ar ddatblygu yn groes i feini prawf i) a v) Polisi GEN 6 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych a chyfarwyddyd o fewn SPG y Cyngor ar Safonau ar gyfer Datblygiad Preswyl Newydd. Felly, byddai'r cynnig yn effeithio'n andwyol ar amwynderau gweledol yr ardal ac amwynder preswyl y trigolion cyfagos a phreswylwyr y datblygiad yn y dyfodol.
2. Barn yr Awdurdod Cynllunio Lleol yw nad yw'r cynnig yn gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer tai fforddiadwy. Mae'r Cyngor wedi gwneud asesiad o anghenion tai lleol ac mae'r asesiad wedi canfod angen sylweddol am dai fforddiadwy ym mhob rhan o'r Sir. O ganlyniad mae'r Cyngor wedi penderfynu gofyn am ddarpariaeth o 30% o leiaf yn unol â'r trefniant gweithio yma ac felly fe'i hystyrir yn groes i Bolisi HSG10 a SRAT15 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych.

**GOHIRIO'R cais canlynol am y rhesymau a roddir**

43/2004/1047/PF

Codi estyniad deulawr to serth yng nghefn y tŷ annedd.
24 Bryntirion Drive, Prestatyn.
Gohirio i ganiatáu ymgynghori ar gynlluniau diwygiedig.

**YMWELIAD SAFLE**

43/2004/01686

Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau gan: Pennaeth Cludiant a Seilwaith.
Newidiadau ac estyniadau i siopau a fflatiau i ffurfio fflatiau ychwanegol ar y llawr cyntaf a'r ail lawr, newidiadau i'r trefniadau parcio a'r fynedfa i gerbydau.
Ffrith Corner, Victoria Road West, Prestatyn.
Ymweliad Safle
Er mwyn asesu'r fynedfa wrth y gyffordd brysur gofynnodd y Pwyllgor fod swyddog o'r Adran Cludiant a Seilwaith i'w wahodd i ddod i'r ymweliad safle.

**231 AWDURDODIAD PWYLLGOR GORFODI – ADRODDIAD AROLWG ACHOS – MEDI 2004**

Cyflwynwyd: Adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn manylu ar achosion gorfodi a'r cynnydd a wnaed.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.*

**232 ENWI FFORDD NEWYDD YN NHREFNANT**

Cyflwynwyd: Adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn rhoi awgrymiadau eraill ar gyfer enw datblygiad newydd yn Nhrefnant.

Rhoddodd y Cynghorydd M.Ll. Davies (Aelod Lleol) ei farn y dylid enwi'r datblygiad yn Pwll y Clai i adlewyrchu gorffennol hanesyddol y safle. Cynigiodd y Cynghorydd N Hugh Jones enw arall sef Trem y Dyffryn ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd N. Hughes.

O'i roi i bleidlais **PENDERFYNODD** y pwyllgor:

Bod y datblygiad sy'n cael ei adeiladu ar Ffordd Bodfari Trefnant i'w enwi'n Trem y Dyffryn.

**233 DYDDIAD YMWELIAD SAFLE**

Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn gofyn am sêl bendith i ymweliadau safle sy'n codi o Eitem Agenda Rhif 2 sydd i'w cynnal ar 4ydd Hydref 2004 ac yn rhoi gwybod am aelodaeth bresennol y Panel Ymweld â Safleoedd. Gwnaed awgrymiadau eraill, sef 5ed Hydref neu 11eg Hydref. O'i roi i bleidlais fe ***BENDERFYNWYD*** cynnal yr ymweliadau safle cymeradwyedig ar ddydd Llun 4ydd Hydref 2004 yn dechrau am 9.00 am.

**234 RHESTR Y CEISIADAU YR YMDRINIWYD Â HWY DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ei adroddiad ysgrifenedig (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) am geisiadau am Ganiatâd Cynllunio a benderfynwyd ganddo ef dan awdurdod dirprwyedig rhwng 1af Awst a 31ain Awst 2004.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30 pm

********